

Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2025 i 2026 Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd Mehefin 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Cynnwys

1.0 Rhagair	4
2.0 Cyflwyniad / cefndir	6
Atebolrwydd	7
3.0 Crynodeb - Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn	7
Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau	7
3.1 Safonau cyflenwi gwasanaethau	7
3.2 Safonau gweithredu	11
3.3 Safonau Hybu	13
4.0 Diweddariad gan amrywiol Wasanaethau'r Cyngor	14
4.1 Gweithgareddau Cymraeg Llyfrgelloedd Sir Ddinbych	14
Gŵyl Ffuglen	15
Prosiect Sêr y Silffoedd	15
Her Darllen Haf 2025 – Gardd Straeon	15
Dechrau Da Sir Ddinbych	15
Cynnig Digidol	16
Hyder Digidol Sir Ddinbych	17
Benthyciadau llyfrau Cymraeg	17
Swyddog y Gymraeg	17
Gwasanaeth Cymraeg	17
4.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaeth Digartrefedd	18
Cynnydd gyda fframwaith 'Mwy na Geiriau' 2025-26	18
4.3 Gwasanaethau Addysg a Phlant	19
Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg - Diweddariad 2025-26	19
4.4 Hamdden Sir Ddinbych Cyf	22
5.0 Datblygu'r Gweithlu	23
5.1 Gwersi Cymraeg	23
5.2 Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd	24
Ymwybyddiaeth iaith (yn cynnwys ysgolion)	24
5.3 Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor	24
Canlyniadau Corfforaethol yn unig (ac eithrio ysgolion)	25
5.4 Recriwtio - Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg / Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn	26
Categori Iaith Gymraeg mewn swyddi a hysbysebwyd	26

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

6.0 Cwynion	27
Cwyn 1	27
Cwyn 2	28
Cwyn 3	29
Cwyn 4	30
Cwyn 5	31
Cwyn 6	31
7.0 Edrych i'r dyfodol - Cynlluniau 2026-27	32

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

1.0 Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn i chi.

Gan fod Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu'r cynllun gweithio'n hyblyg ble mae staff â'r hawl i weithio mewn nifer o ddulliau gwahanol megis gweithio o gartref mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth wedi'i fireinio'n ofalus er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Gan fod mwyafrif y cyfarfodydd bellach yn wyneb yn wyneb mae rhagor o gyfleoedd i'r staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae cyfle i bod aelod o staff y Cyngor fynychu cyrsiau ac i ymuno mewn gweithgareddau mewnol er mwyn iddynt ddefnyddio, datblygu a meithrin eu sgiliau. Wrth barhau ar eu taith iaith mae'r cyfleoedd i ddefnyddio a mireinio eu gallu i siarad Cymraeg mewn sesiynau anffurfiol megis Paned a Sgwrs neu gymryd rhan yn yr Eisteddfod Staff i'w gymeradwyo.

Calonogol yw gweld bod cynnydd wedi bod yn y defnydd cyhoeddus o'r Gymraeg yn fewnol ac yn gyhoeddus gan gyrraedd y nôd o gael 100% mewn tri maes. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar y ffôn a sicrhau bod pob ffurflen ar gael yn y Gymraeg.

Rhaid cydnabod ymdrechion cyson y Pencampwyr Iaith sy'n cynnig cefnogaeth a chyfleoedd i staff y Cyngor i ddefnyddio eu Cymraeg sydd ganddynt yn fewnol, a hynny dan arweiniad ein Swyddog y Gymraeg. Ar hyd y flwyddyn, mae Swyddog arweiniol y Gymraeg wedi cynyddu'r cyfleoedd a roddir i'r staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ymatebwyd yn gadarnhaol i unrhyw gŵyn a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ac fe osodwyd mesurau yn eu lle i sicrhau na fydd unrhyw amryfusedd yn cael ei ail-adrodd.

Cyflwynaf yr Adroddiad hwn i'r darllenydd ac hynny gyda'r hyder bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cymryd camau breision wrth ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn llygad y cyhoedd. Rwyf hefyd yn hyderus bod y gwaith yn parhau.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Cynghorydd Emrys Wynne

Aelod arweiniol dros y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant



Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

2.0 Cyflwyniad / cefndir

Mae'n ofynnol ar y Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn amlinellu'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â gofynion y Safonau rhwng Ebrill y 1af a Mawrth 31ain. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr i ymateb yn bositif i'r Safonau iaith ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn ein Strategaeth Iaith Gymraeg 2023-2028, a gyhoeddwyd fis Mehefin 2023. Rydym yn hollol ymrwymedig at chwarae ein rhan tuag at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

[Gweld rhestr lawn o'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy.](#)

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

Rydym yn parhau i gefnogi'r gweithlu wrth weithredu'r Safonau iaith ag ein targed yw dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Caiff hyn ei wneud trwy hyrwyddo cyrsiau Cymraeg iddynt ddechrau ar eu taith iaith, neu gyrsiau hyder a gweithgareddau mewnol iddynt ddatblygu a meithrin eu sgiliau.

Mae gennym weledigaeth glir ar gyfer yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych:-

- Rydym wedi datblygu Polisi i Hwyluso ac annog defnydd Mewnol o'r Gymraeg er mwyn cryfhau ein darpariaeth o gyfleoedd hyfforddi a chymdeithasol i'n staff i weithio yn y Gymraeg ac i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

- Rydym am weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau fod y Gymraeg yn iaith ffyniannus yn Sir Ddinbych.
- Mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r Fframwaith Iechyd a Gofal 'Mwy Na Geiriau' a Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg (rhoddir diweddariad ar y gwaith hwn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

Atebolrwydd

Gorweddai cyfrifoldeb strategol am yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych gyda Thîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Gary Williams, a'r Aelod Arweiniol gwleidyddol yw'r Cynghorydd Emrys Wynne a oedd yn gyfrifol am yr iaith Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant dros gyfnod yr adroddiad hwn. Swyddog iaith Gymraeg y Sir yw Gerallt Lyall.

Os hoffech drafod yr adroddiad dylech gysylltu'n uniongyrchol â'r adran berthnasol drwy e-bost ar cymraeg@sirddinbych.gov.uk.

3.0 Crynodeb - Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau

3.1 Safonau cyflenwi gwasanaethau

Crynodeb o fonitro mewnol

Penderfynwyd edrych ar nifer o'r Safonau y mae angen i'r Cyngor gydymffurfio gyda nhw fel rhan o fonitro mewnol y Cyngor. Roedd y pwyslais yn bennaf ar y safonau sy'n ymwneud yn uniongyrchol gyda'r cyhoedd.

Hefyd yn sgil adroddiad thematig diweddar Comisiynydd y Gymraeg - "Arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol", penderfynwyd edrych yn fanwl ar y maes hwnnw. Dyma grynoded o'r gwaith monitro yma.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Gwasanaeth	Adroddiad Siopwr Cudd Cyngor Sir Ddinbych 2024-25	Adroddiad ar Berfformiad Comisiynydd y Gymraeg 2024-25 - Cymru Gyfan
Gwasanaethau ffôn: delio â'r alwad yn llawn yn Gymraeg	82%	63%
Dogfennau ar gael yn Gymraeg	100%	93%
Ffurflenni ar gael yn Gymraeg	80%	88%
Gwefannau: tudalennau ar gael yn Gymraeg	100%	92%
Hysbyseb swydd ar gael yn Gymraeg	100%	90%

Yn gyffredinol o'r tabl uchod gellir gweld bod y Cyngor yn perfformio yn dda. Er hyn gwelir bod dal lle i wella wrth ddelio â Galwadau Ffôn yn y Gymraeg ac ar sicrhau bod pob ffurflen ar gael yn y Gymraeg. Yn sgil hyn mae'r adroddiad yn nodi 3 argymhelliad i gryfhau cydymffurfiaeth ymhellach.

1. Atgoffa rheolwyr o sticeri gyda chanllawiau ateb ffôn yn ddwyieithog y gall swyddogion roi ar eu cyfrifiadur ac ar ofynion y safon ar angen i gynnig trosglwyddo i siaradwr Cymraeg yn ddiofyn.
2. Atgoffa rheolwyr bod angen i ddogfennau gynnwys ar dudalen blaen y ddogfen y geiriad – 'Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh' ar y fersiwn Saesneg er mwyn cydymffurfio â safon 84.
3. Adolygu ffurflenni sydd ar gael ar ein gwefan ymhellach a chydweithio gyda TGCH / tîm y we i sicrhau nad oes negeseuon cymorth Saesneg yn ymddangos.

Mae'r argymhellion hyn wedi'u gweithredu.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Cyfryngau Cymdeithasol

Enw'r cyfrif	Cydymffurfio yn llawn	Cydymffurfio yn rhannol	Ddim yn cydymffurfio
Prif gyfrif Cyngor Sir Ddinbych Facebook	100%	0%	0%
Linked In Cyngor Sir Ddinbych	90%	0%	10%
Clipiau Fidio ar Brif Gyfrif Facebook Cyngor Sir Ddinbych	80%	10%	10%
Is-gyfrif Facebook Cyngor Sir Ddinbych - Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	90%	10%	0%
Instagram - Carchar Rhuthun	0%	95%	5%
Facebook (Prif Gyfrif Hamdden Sir Ddinbych)	80%	20%	0%
Hunaniaeth Gorfforaethol (Safon 83)	83%	0%	17%
Dolen i'r cyfrif Cymraeg	50%	0%	50%

Canfu'r adolygiad fod prif gyfrifon y Cyngor yn cydymffurfio'n well na'r is-gyfrifon, gyda'r prif broblemau yn cynnwys negeseuon uniaith Saesneg neu sefyllfaoedd lle'r oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Roedd 80% o'r fideos a chlippedu sain a samplwyd yn cydymffurfio'n llawn, ond nodwyd y gallwn wneud mwy o ddefnydd o is-deitlau Saesneg i gyd fynd â rhywun yn siarad yn y Gymraeg yn hytrach nag ail wneud y fidio gyda siaradwr Saesneg. Roedd 22% o'r fideos yn cynnwys siaradwr Cymraeg ar y sgrin.

O ran Hunaniaeth Gorfforaethol, roedd 83% o'r cyfrifon yn cydymffurfio, ond roedd rhai diffygion o ran enwau cyfrifon a diffyg dolenni at gyfrifon Cymraeg ar y dudalen gyfatebol Saesneg. Mae'r rhain wedi ei gwirio bellach.

Gwelir isod argymhellion yn sgil gwaith Monitro ar ein Cyfrifon Cymdeithasol

1. Sicrhau bod pob aelod o staff sydd yn postio ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn gyfrifol am y cyfrifon a ddefnyddir yn llwyr ymwybodol o ofynion y safonau drwy ddarparu arweiniad a chanllaw ar ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol.
2. Byddwn yn cynnal archwiliad llawn o'r holl gyfrifon cymdeithasol y rydym yn gyfrifol amdanynt i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad gan gynnwys gwirio logos, enwau, handlenni a phroffiliau.
3. Byddwn yn cymryd camau i hyrwyddo cyfrifon Cymraeg trwy eu marchnata yn well a thrwy gynnwys dolenni clir o'r cyfrifon cyfatebol Saesneg i'r cyfrifon Cymraeg.
4. Byddwn yn archwilio dulliau amgen o gyhoeddi fideos yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o fewn cynnwys y fideo, lle bo hynny'n ymarferol bosib.
5. Creu rhestr o weithwyr y Cyngor Sir fesul Gwasanaeth sy'n fodlon gwneud cyfweiliadau a chlippedu sain yn y Gymraeg ar gyfer fideos Corfforaethol.

Mae'r Swyddog Iaith yn gweithio gydag Adrannau a Swyddogion perthnasol i weithredu'r argymhellion uchod.

Ffurflenni Hunan Werthuso

- Dangosodd ein Ffurflenni Hunan Werthuso, a anfonir i reolwyr, mai cydymffurfiaeth gyda'r Safonau sy'n ymwneud â Galwadau Ffôn yn y Gymraeg a Phenderfyniadau Polisi oedd yn eu poeni fwyaf. Roedd delio gyda Galwadau Ffôn yn y Gymraeg fel y nodwyd eisoes yn rhywbeth a wnaeth amlygu ei hun yn ein monitro mewnol ac felly

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

rhoddwyd cymorth a chanllaw clir i reolwyr a staff drwy ail anfon sticeri y gall swyddogion rhoi ar eu cyfrifiadur sy'n atgoffa staff o ofynion y safon a'r angen i gynnig trosglwyddo i siaradwr Cymraeg yn ddiofyn. Mae'r ffurflenni Hunan Werthuso hefyd wedi amlygu nad ydi rheolwyr yn sicr ac eisiau mwy o arweiniad ar y Safonau Llunio / Penderfyniad Polisi felly dros y flwyddyn nesaf byddwn yn rhoi hyfforddiant penodol i swyddogion a chynghorwyr ar y Safonau Penderfyniad Polisi.

Pwyllgor Llywio'r Gymraeg

Mae'r pwyllgor wedi parhau i gyfarfod tair gwaith y flwyddyn ac wedi bod yn gwahodd rhai o'n partneriaid i roi cyflwyniad yn y cyfarfodydd ar eu gwaith o fewn y sir. Rydym wedi cryfhau rôl y Pwyllgor wrth fonitro a Chraffu bod yr iaith Gymraeg yn cael ei brif ffrydio ym mhob un o 6 maes ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r pwyllgor hefyd yn craffu ar adran Effaith ar y Gymraeg yn ein hasesiadau Effaith ar Les er mwyn sicrhau bod Ymdrech Gydwybodol yn digwydd mewn Penderfyniadau Polisi'r Cyngor.

Rydym wedi creu Canllawiau Newydd - Canllawiau Penderfyniad Polisi - Effaith ar y Gymraeg a byddwn yn rhedeg rhaglen hyfforddiant i Uwch Swyddogion a Swyddogion perthnasol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Safonau Llunio Polisi yn y flwyddyn 2026-27. Mae'r canllawiau ar ein mewnwyd er mwyn i unrhyw swyddog ei darllen.

3.2 Safonau gweithredu

Polisi i Hwyluso ac annog defnydd Mewnol o'r Gymraeg

Fel y nodwyd eisoes rydym wedi cryfhau ein Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg - gellir gweld copi cyflawn o'r Polisi yma - [tudalen ein gwefan - Safonau Iaith Gymraeg](#)

Rydym wedi gwneud llawer o waith i godi ymwybyddiaeth uwch reolwyr a staff o bwrpas a chynnwys y Polisi mewn nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth byddwn yn parhau a'r gwaith yma o godi ymwybyddiaeth am y Polisi a gwerthuso Rhaglen gweithredu'r polisi ym mis Mehefin 2027.

Bu erthygl gamarweiniol yn y wasg am y polisi mewnol cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet gyda phennawd tanllyd a negyddol. Yn sgil hyn, tarodd aelodau'r Cabinet yn ôl yn y cyfarfod gan amddiffyn y polisi a mynegi eu cefnogaeth (dolenni isod).

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

[Welsh language 'mystery shoppers' will check up on council departments](#)

[Welsh language policy has been misunderstood](#)

Dyma flas ar y gwaith yn 2025-26 sydd wedi digwydd i Hwyluso ac annog defnydd Mewnol o'r Gymraeg.

Eisteddfod Staff

Cynhaliwyd Eisteddfod staff i annog defnydd mewnol o'r Gymraeg a hybu diwylliant Cymreig ymysg staff. Cymerodd dros 50 aelod o staff (roedd unigolion o bob gwasanaeth wedi cystadlu) ran yn yr Eisteddfod ar draws 8 o gystadlaethau. Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo yn Neuadd y Sir gyda 25 o staff yn mynychu'r seremoni. Dyma fideo o'r Seremoni Wobrwyo - [Seremoni Wobrwyo Eisteddfod Staff 2026](#)

Pencampwyr y Gymraeg

Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion da, hyfforddiant perthnasol a gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth o anghenion y Safonau a'r strategaeth gysylltiedig yn ogystal â chynnal ymarferion siopwr cudd.

Mae'r Pencampwyr yn parhau i atgyfnerthu'r safonau iaith drwy hwyluso'r broses cyfathrebu fewnol i weddill y Cyngor trwy rannu rhestrau gwirio safonau, hyrwyddo gwersi Cymraeg, sesiynau Paned a Sgwrs a chodi ymwybyddiaeth o ddiwrnodau cenedlaethol fel Dydd Owain Glyndŵr, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Miwsig Cymru, Shwmae Su' mae, Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg ac ati. O'r cyfarfodydd Pencampwyr daeth y syniad o gael Corneli Cymraeg ymhob swyddfa'r Cyngor. Bellach mae Corneli Cymraeg ym mhob swyddfa yn y Cyngor gyda hysbysfwrdd a ddefnyddir i hyrwyddo gwersi Cymraeg, sesiynau Paned a Sgwrs, rhaglenni teledu a chyfleoedd eraill i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gymuned.

Paned a Sgwrs

Mae ein sesiynau misol Paned a Sgwrs i weithwyr y Cyngor Sir yn mynd o nerth i nerth. Dyma oedd gan rhai o fynychwyr ein sesiynau i'w ddweud am y sesiynau:-

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

“Dwi’n gallu ymlacio yn siarad Cymraeg mewn sesiynau Paned a Sgwrs. Mae’n nhw diddorol a hwyl!” Kerry Standen

“I have only attended a few sessions, but I feel like I learn something new about the Welsh language and culture every time.”

“I like that it is relaxed and with no pressure to participate if you are not confident and you just want to listen.” Katerina Koleva

Dros y flwyddyn mae 20 o swyddogion gwahanol wedi mynychu ac mae poblogrwydd y sesiynau yn cynyddu.

Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg

Gyda chymorth y Pencampwyr Cymraeg cynhaliwyd sesiwn Paned, Sgwrs a Mins Pei yn swyddfeydd y Cyngor Sir yn Nhŷ Russell yn y Rhyl ac yn Neuadd y Sir Rhuthun i hyrwyddo Ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg - Defnyddia Dy Gymraeg. Roedd cyfle i gael sgwrs yn y Gymraeg, cael mwy o wybodaeth am wersi Cymraeg a sesiynau Paned a Sgwrs yn ogystal â rhannu bathodynau a chortynnau gwddf siarad a dysgu Cymraeg i staff.

Hefyd roedd yr ymgyrch yn dathlu 20 mlynedd o ddefnyddio'r bathodyn oren iaith gwaith. Crëwyd y fideo yma i annog y cyhoedd i ddefnyddio eu Cymraeg wrth weld y logo - [Dathlu 20 mlynedd o iaith Gwaith](#) a rhannwyd negeseuon ar ein cyfryngau cymdeithasol i annog y cyhoedd i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Cafodd y fidio i wyllo gan 1,104 o bobl gyda 28 yn hoffi neu rannu'r fidio.

3.3 Safonau Hybu

Partner iaith Sir Ddinbych

Mae'r Fforwm Partner iaith Sir Ddinbych yn cynnwys nifer o sefydliadau, lleol a chenedlaethol, sy'n gweithio tuag at hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn strategol yn Sir Ddinbych. Mae'r Bartneriaeth iaith wedi sefydlu Is-bwyllgor Ieuenctid er mwyn cael mwy o ffocws ar Thema 3 ein Strategaeth iaith Sirol sef Plant a Phobl Ifanc. Cydweithiodd y Partneriaid ar sawl digwyddiad eleni :-

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Gorymdaith Gŵyl Dewi Dinbych

Fe wnaethom gefnogi Gorymdaith Gŵyl Dewi yn Ninbych a drefnwyd yn bennaf gan Fenter Iaith Sir Ddinbych. Mynychodd 600 o blant ysgol ac roedd Cyngorwyr Cyngor Sir Ddinbych yn bresennol, ac fe wirfoddolodd 6 swyddog o'r Cyngor Sir i helpu gyda stiwardio'r digwyddiad. Gallwch wyllo fideo o'r diwrnod - [Gorymdaith Gŵyl Dewi 2026](#).

Digwyddiad Hwyl i'r Teulu

Fe weithiodd nifer o'r partneriaid, Hamdden Sir Ddinbych Cyf, Menter Iaith, Yr Urdd, Mudiad Meithrin, RHAG a'r Cyngor i gynnal nosweithiau Hwyl i'r teulu / Gŵyl Bêl-droed Cymru i Ferched yn gysylltiedig ag Ewros 2025 yn Ninbych a Phrestatyn. Cynhaliwyd stondinau gwybodaeth i rieni a gweithgareddau dwyieithog i blant gyda thua 200 o fynychwyr dros y ddau ddigwyddiad.

4.0 Diweddariad gan amrywiol Wasanaethau'r Cyngor

4.1 Gweithgareddau Cymraeg Llyfrgelloedd Sir Ddinbych

Dyma flas ar weithgareddau gyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ein Llyfrgelloedd:

Cynhaliwyd ystod eang o ddigwyddiadau yn llyfrgelloedd Sir Ddinbych drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Cynhelir ymweliadau ysgol yn rheolaidd, ynghyd ag ymweliadau gan Gylchoedd Meithrin a grwpiau gwarchodwyr plant.

Mae'r llyfrgelloedd yn trefnu gweithdai crefft i oedolion a phlant, yn ogystal â sesiynau galw heibio drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau'n digwydd yn naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae nifer o'n llyfrgelloedd hefyd yn cynnig grwpiau darllen Cymraeg. Ym mis Medi, dathlodd grŵp darllen Sgwrs a Sangria yn Ninbych ei ben-blwydd yn 20 oed gydag ymweliad gan Gwenno Gwilym, awdur y nofel hynod boblogaidd *V+Fo*.

Ceir hefyd sesiynau Paned a Sgwrs mewn rhai o'n llyfrgelloedd, lle gall pobl fwynhau paned a sgwrs yn Gymraeg. Yn Llyfrgell y Rhyl caiff y sesiynau eu harwain gan staff y llyfrgell, tra yn Rhuthun a Dinbych cânt eu cefnogi gan Popeth Cymraeg.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Gŵyl Ffuglen

Yn ystod Gŵyl Ffuglen eleni, gwahoddwyd yr awdur lleol Rebecca Roberts i ymweld â Llyfrgell Rhuthun, lle bu'n trafod ei llyfrau newydd, ac ymwelodd yr awdur poblogaidd Marlyn Samuels â Llyfrgell Dinbych. Cafwyd hefyd sgwrs hynod ddiddorol yn Llyfrgell Llangollen gan Graham Jones am Richard Jones Berwyn a'i fywyd rhyfeddol ym Mhatagonia.

Prosiect Sêr y Silffoedd

Roeddem yn ffodus iawn o dderbyn cyllid pellach gan Gyngor Llyfrau Cymru i gynnal digwyddiadau awduron i ysgolion yn ystod mis Chwefror, pan fynychodd dros 1,000 o blant ysgol. Daeth yr awdur Cymraeg Anni Llŷn i Ddinbych a Rhuthun, lle cawsom ymweliadau gan Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Pant Pastynog, yn ogystal ag Ysgol Carreg Emlyn, Ysgol Betws Gwerful Goch, Ysgol Bro Elwern, Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Bro Cinmeirch. Roedd yn wych gweld y plant mor frwdfrydig am lyfrau a darllen.

Her Darllen Haf 2025 – Gardd Straeon

Eleni, cymerodd 1,479 o blant ran yn yr her, gyda 635 yn ei chwblhau. Mae'r holl ddeunyddiau ar gael yn ddwyieithog ac mae'r her yn annog plant i barhau i ddarllen dros wyliau hir yr haf.

Dechrau Da Sir Ddinbych

Eleni rydym wedi ymestyn sesiynau Rhigymau Dechrau Da i Gorwen a Llangollen, felly mae'r tîm bellach yn cynnig sesiynau dwyieithog wythnosol ym mhob llyfrgell yn ystod y tymor ysgol. Mynychodd 6,015 o oedolion a 6,713 o blant y sesiynau eleni. Ymwelodd staff o Fenter Iaith a RhAG â sesiynau i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg.

Dyma ychydig o'r adborth a dderbyniwyd mewn arolwg diweddar Dechrau Da:

“Mae Dechrau Da wedi bod mor fuddiol i mi a'm dau fab, ac rydym wedi cael cymaint o fudd o'r sesiynau a gwneud ffrindiau newydd. Mae fy mab yn cerdded o amgylch y tŷ yn canu caneuon Cymraeg y mae wedi'u dysgu yn Dechrau Da.”

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

“Rwy’n nain, ac mae hi wrth ei bodd gyda llyfrau ac wrth ei bodd yn dod i’r llyfrgell ac yn benthyg llyfrau. Mae ganddi fwy o hyder ac mae’n hapus i siarad â’r staff. Mae hefyd yn ymateb i oedolion eraill yn y sesiynau. Mae ganddi ddiddordeb mawr yn ei hunaniaeth Gymreig ac, wrth i’w hyder gynyddu, mae’n ceisio dweud mwy o eiriau Cymraeg. Mae hi bellach yn hapus yn cyfrif ac yn canu rhigymau cyfarwydd. Rwy’n ystyried bod cyflwyno ail iaith yn gynnar yn bwysig iawn.”

“Dechrau Da yw ein hoff ddosbarth ers pan oedd Sylvia yn fabi, ac mae wedi ei helpu’n fawr i ddysgu caneuon sy’n ei chadw’n dawel ac yn hapus mewn sefyllfaoedd anodd, fel yn yr ysbyty’r wythnos hon. Mae wedi bod mor ddefnyddiol iddi ddechrau dysgu ymadroddion Cymraeg drwy i ni ddysgu caneuon. Rydym mor ddiolchgar am adnodd mor wych yn lleol sydd wedi ein helpu ni’n dau i fagu hyder, ac rwyf wedi defnyddio’r llyfrgell yn fwy aml o ganlyniad hefyd. Rydym wrth ei bodd gyda’r fideos YouTube hefyd – sy’n ddefnyddiol iawn gartref. Diolch Dechrau Da, rydych chi i gyd yn anhygoel!”

Mae ein llyfrgelloedd hefyd yn cael eu defnyddio gan grwpiau eraill. Er enghraifft, mae Mudiad Meithrin yn cynnal sesiynau Stori a Chân ac ioga babanod yn llyfrgelloedd Llanelwy a Phrestatyn.

Cynnig Digidol

Mae BorrowBox yn wasanaeth Cymru gyfan le gall darllenwyr gael mynediad at rifyn diweddaraf *Y Cymro* a chylchgronau Cymraeg megis *Lingo Newydd* a *Cara*. Yn 2025-26 cafwyd 32 lawr lwythiad o *Cara*, 62 o *Lingo Newydd*, 168 o *Y Cymro* a 40 o *Y Wawr*.

Mae papurau newydd a chylchgronau digidol hefyd ar gael drwy ap PressReader, a lawr lwythwyd *Y Cymro* 89 gwaith y llynedd.

Gellir benthyg a lawr lwytho e-Lyfrau a llyfrau llafar Cymraeg hefyd drwy ap BorrowBox.

Mae 11,842 copi o deitlau e-lyfrau Cymraeg ar gael i’w lawr lwytho ar BorrowBox, ynghyd â 1,317 o lyfrau llafar.

Ychwanegwyd dros 1,000 o gyfrolau Cymraeg newydd i BorrowBox y llynedd.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

lawr lwythwyd 968 o lyfrau Cymraeg gan aelodau llyfrgelloedd Sir Ddinbych y llynedd, ynghyd â 494 o lyfrau llafar.

Hyder Digidol Sir Ddinbych

Cynhaliodd Llyfrgelloedd Sir Ddinbych, mewn partneriaeth â Cwmpas, nifer o sesiynau Hyder Digidol yn eu llyfrgelloedd. Ariannwyd y prosiect drwy'r Gronfa Ffyniant Bro ac mae'n cynyddu lefelau cynhwysiant digidol yn Sir Ddinbych. Y nod yw chwalu'r rhwystrau sy'n atal trigolion rhag ymgysylltu â chyflogaeth ac addysg drwy gynnig ystod o ymyriadau cynhwysiant digidol uniongyrchol.

Benthyciadau llyfrau Cymraeg

Benthycwyd 16,379 o eitemau Cymraeg (llyfrau a llyfrau llafar) o'n llyfrgelloedd eleni. O'r rhain, roedd 63% yn llyfrau plant, sy'n dangos cyfraniad sylweddol llyfrgelloedd lleol at nod y Cyngor o gynyddu nifer y plant sy'n defnyddio'r Gymraeg ac yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gan mai dim ond dwy siop lyfrau Cymraeg sydd yn y sir, mae'r llyfrgell leol yn ffynhonnell bwysig o lyfrau Cymraeg yn y gymuned i blant ac oedolion. Mae'r llyfrgelloedd yn gweithio'n agos gyda Siop y Siswrn, a ddarparodd nifer o deitlau Cymraeg am ddim i'r llyfrgelloedd eu rhoi i blant ar Ddiwrnod y Llyfr.

Swyddog y Gymraeg

Mynychodd Swyddog y Gymraeg Gynhadledd Staff y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ym mis Mawrth 2026 er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a darparu gofal cwsmer da mewn llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad.

Gwasanaeth Cymraeg

Darperir gwasanaeth Cymraeg ym mhob llyfrgell, ac mae staff yn cael eu cefnogi i ddysgu a datblygu eu sgiliau iaith. Mewn partneriaeth â Menter Iaith Sir Ddinbych, mae nifer o lyfrgelloedd yn arddangos posteri sy'n annog ymwelwyr i siarad ac ymarfer eu Cymraeg yma.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

4.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaeth Digartrefedd

Cynnydd gyda fframwaith 'Mwy na Geiriau' 2025-26

Rydym yn parhau yng Nghyngor Sir Ddinbych i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gwasanaethau Oedolion a Digartrefedd a'r Gwasanaethau Plant. Mae ymrwymiad clir i wella gwasanaethau i sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol a'r Gymraeg yn elfen allweddol o ofal, gan gynnwys hybu a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol.

Mae'r gwaith hwn wedi'i arwain gan Fframwaith Mwy na Geiriau (2022-27), ac mae grŵp mewnol, sy'n cynnwys Cyngorwyr, Rheolwyr a swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd i arwain y camau gweithredu. Rydym hefyd yn parhau i gydweithio'n agos efo'r Swyddogion Comisiynu a Swyddogion Monitro gwasanaethau gofal, Swyddog Iaith y Cyngor a'r swyddogion sy'n mynychu'r Fforwm Mwy na Geiriau Rhanbarthol fel bod modd rhannu arfer da

Yn ystod y cyfnod: rydym wedi:

Sicrhau bod crynodeb ynghylch y Cynnig Gweithredol/Mwy na Geiriau wedi ei gynnwys yng nghyfarfod croeso'r Pennaeth Gwasanaeth i staff sy'n newydd i'r Adran Oedolion a Digartrefedd. Rydym hefyd wedi sicrhau fod hysbysfwrdd penodol ynghylch cyfleoedd Cymraeg ar gael o fewn ein hystafell hyfforddi ar gyfer staff y Sector Gofal.

Rhannu manylion y cyrsiau ac adnoddau sydd wedi eu datblygu gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr gofal cymdeithasol sy'n dymuno dysgu mwy am y Gymraeg, diwylliant a gweithio'n ddwyieithog [Ein cynnig Cymraeg](#)

Hyrwyddo ystod o gyfleoedd hyfforddiant iaith, gan gynnwys cyrsiau Coleg Cambria a chysiau preswyl a ddarperir yn Nant Gwrtheyrn yn benodol ar gyfer staff o'r Sector Iechyd a Gofal. Rydym hefyd yn y broses o gyflwyno prosiect newid arferion iaith o fewn un o'r cartrefi gofal yn Ninbych. Caiff y prosiect hwn ei ariannu gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Hyrwyddo ystod o sesiynau, megis 'Lle i ddechrau' wrth wneud y Cynnig Rhagweithiol. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am yr adnoddau sydd ar gael er mwyn cefnogi darparu gwasanaethau o ansawdd i siaradwyr Cymraeg a gweithredu'r cynnig,

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

megis posteri, bathodynau, beiros, mygiau, cortynnau gwddf a magnetau. Rhannwyd hefyd becyn penodol ar gyfer Cartrefi Gofal ar gyfer Dydd Miwsig Cymru / Dydd Gŵyl Dewi.

Darperir yr wybodaeth uchod o fewn ein cylchlythyr wythnosol i staff mewnol, a'r cylchlythyr misol sy'n cael ei rannu efo darparwyr gofal annibynnol ar draws y Sir. Mae gwybodaeth berthnasol am y Cynnig Rhagweithiol a'r Gymraeg hefyd ar gael o fewn adran benodol ar ein System Rheoli Dysgu.

4.3 Gwasanaethau Addysg a Phlant

Diweddariad Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg - Diweddariad 2025-26

Mae llawer o ddatblygiadau o ran y Gymraeg mewn Addysg wedi digwydd yn ystod 2025-26 – dyma ychydig o'r prif bwyntiau isod.

Prif benawdau

Mae gwybodaeth gynhwysfawr ar gael ar wefannau'r sir a phlatfformau digidol eraill, ac mae hon wedi'i datblygu'n effeithiol i hyrwyddo addysg Gymraeg. Rydym wedi bod yn rhannu clipiau o rhieni yn trafod ei profiad positif nhw o rhoi addysg Gyfrwng Cymraeg i'w plant – mae'r clipiau yma yn aml yn cael ei gwyllo gan tua 2,000 o bobl ac maen' t yn derbyn adborth positif iawn gan y gymuned.

Mae nifer cynyddol o blant yn mynychu cylchoedd meithrin ac yn trosglwyddo'n llwyddiannus i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r nifer o leoliadau Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 3 i 16 dros y tair blynedd diwethaf.

Ym mis Medi 2025, cofrestrwyd canran uwch o blant oedran meithrin mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ym mis Medi 2025, cofrestrwyd canran uwch o blant oedran derbyn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer cynyddol o blant yn ymuno â'r dosbarth trochi yn Ysgol Glan Clwyd.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Mae mwy o newydd-ddyfodiaid yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mae swyddogion cefnogi'r Gymraeg yn darparu cymorth rhagorol i staff ysgolion, gan greu a rhannu adnoddau dysgu gwerthfawr sy'n cefnogi'r gwaith o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cydweithio gydag adrannau a thimau Blynyddoedd Cynnar Sir Ddinbych

Mae swyddog CSCA Sir Ddinbych yn rhan o bwyllgor Tîm Blynyddoedd Cynnar Sir Ddinbych gyda'r Gymraeg ar yr agenda ymhob cyfarfod yn trafod:

- Lleoliadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg
- Defnydd o'r Gymraeg ym mhob lleoliad cyn ysgol
- Staff sy'n siarad Cymraeg yn y tîm
- Hyfforddiant
- Sut mae rhannu gwybodaeth gyda rhieni am opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg

Mudiad Meithrin

Nifer y Cylchoedd Meithrin a nifer y lleoliadau Cylchoedd Meithrin yw 18

Nifer y plant sy'n mynychu'r Cylchoedd Meithrin wedi codi i 624

Canran y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg - 91.08%

Dysgwyr meithrin sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi i 33.4%

Dechrau'n Deg

Nifer y lleoliadau Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg wedi codi o 6 i 16. Y lleoliadau yw Y Llys, Ysgol Dewi Sant, Dinbych Uchaf, Hadau'r Nant, Llanelwy, Cylch y Dderwen, Prion, Clocaenog, Llanrhaeadr, Rhuthun, Y Graig, Henllan, Pentrecelyn, Gwyddelwern, Llangollen, Bro Dyfrdwy.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Cynyddu capasiti mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Mae [Hadau'r Nant](#) adeilad newydd ar safle Ysgol Twm o'r Nant wedi ei gwblhau a niferoedd yn mynychu yn uchel.

Mae cynlluniau ar y gweill i ehangu'r ddarpariaeth cyn oed ysgol yn Ysgol y Lllys.

Mae cynlluniau mewn lle i ddatblygu safleoedd yn ysgolion Gwernant, Bro Elwern, Bro Cinmeirch a Henllan.

Tîm Cefnogi'r Gymraeg

Mae tîm Cefnogi'r Gymraeg yn parhau i gydlynu gweithgareddau, hyfforddiant a chreu a rhannu adnoddau dysgu fel bo dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg ar draws pob sector.

Mae model cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid yn datblygu'n dda. Mae nifer o ddisgyblion sy'n newydd-ddyfodiaid i ysgolion Cymraeg yn parhau i gynyddu a'r gefnogaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bawb.

Mae adnoddau a chynlluniau gwaith wedi eu creu a chydweithio agos rhwng staff y gwasanaeth a rhieni ac athrawon.

Siarter Iaith / Cymraeg Campus

Mae pob ysgol gynradd Gymraeg ac Ysgol Llanfair wedi derbyn y wobr aur Siarter Iaith.

Yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg mae 25 ysgol wedi derbyn y wobr efydd a 7 ysgol y wobr arian a dwy y wobr aur.

O'r 7 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg a dwy iaith, mae un ysgol wedi derbyn y wobr arian, dwy ysgol y wobr efydd a rhagwelir y bydd un ysgol arall yn derbyn y wobr aur yn y dyfodol agos.

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY")

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Rhannwyd holiaduron gydag adrannau ADY y Sir, ysgolion arbennig a chydlynwyr ADY mewn ysgolion Cymraeg. Wedi dadansoddi'r ymatebion, y brif neges oedd bod yr awdurdod yn llwyddo i ddarparu cefnogaeth trwy'r Gymraeg i ddysgwyr ADY a bod cynnig trwy'r Gymraeg i ddysgwyr mewn nifer o wahanol feysydd.

Mae staff ADY yr awdurdod yn cynnig gwasanaeth dwyieithog, mae'r ysgolion arbennig yn cynnig addysg a chefnogaeth ddwyieithog ac mae cydlynwyr ADY ysgolion Cymraeg y sir yn derbyn cefnogaeth dda gan y sir. Er hyn, mae prinder adnoddau Cymraeg yn broblem ac mae recriwtio staff sy'n medru siarad Cymraeg yn heriol iawn.

Mae gwybodaeth am ddarpariaeth ADY trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei ddiweddararu ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Mae swyddog CSCA Sir Ddinbych yn cydweithio'n agos gyda swyddogion ADY y sir i sicrhau bod darpariaeth gytbwys i ddisgyblion ADY cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Mae rhwydwaith yn cael ei greu i rannu gwybodaeth, asesiadau ac adnoddau Cymraeg ar gyfer staff ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Tîm Cefnogi'r Gymraeg yn parhau i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant i staff mewn ysgolion ar addysgeg a dulliau addysgu Cymraeg.

Rydym mewn cysylltiad gyda swyddogion o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, sydd wrthi'n cynllunio rhaglenni cenedlaethol i hyfforddi'r gweithlu i ddysgu siarad Cymraeg.

Cafodd 57 o staff ysgolion Sir Ddinbych hyfforddiant dysgu Cymraeg.

Byddwn yn parhau i graffu ar ddata SWAC y sir i ddadansoddi ble mae'r bylchau.

4.4 Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Drwy gydol 2025, bu Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn hyrwyddo ac yn dathlu'r iaith Gymraeg yn weithredol ar draws ei safleoedd hamdden, sianeli cymdeithasol a digwyddiadau cymunedol trwy ystod eang o fentrau gwahanol. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi, yn ogystal â phrydau bwyd a diod arbennig â thema Gymreig ar y diwrnodau yma. Rydym hefyd wedi hyrwyddo cerddoriaeth a theatr Gymreig, gan gynnwys cynhyrchiad theatr Cymraeg a fynychwyd gan dros 500 o blant ysgol lleol. Cefnogodd Hamdden Sir Ddinbych Cyf ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn fewnol hefyd trwy gyflwyno gair neu ymadrodd Cymraeg wythnosol i staff, adolygu cyfarchion ffôn dwyieithog, a chynnal ymweliadau safle i annog hyder staff i ddefnyddio Cymraeg sylfaenol gyda chwsmeriaid. Hefyd datblygwyd adnodd geirfa gwersi nofio Cymraeg ar gyfer hyfforddwyr, a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol fel Diwrnod Shwmae Su'mae. Ymddangosodd Hamdden Sir Ddinbych Cyf ar S4C hefyd, gydag aelodau staff yn cael eu cyfweld am y cyfleuster newydd Box12.

5.0 Datblygu'r Gweithlu

5.1 Gwersi Cymraeg

Dyma'r nifer o aelodau staff y Cyngor fynychodd wersi Cymraeg drwy gynllun 'Cymraeg Gwaith' gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a 'Cynnig Cymraeg' Gofal Cymdeithasol Cymru:

Lefel y Cwrs	Nifer
Blasu	14
Mynediad	38
Sylfaen	18
Canolradd	4
Codi hyder	4
Uwch	4
Gloywi	1

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Lefel y Cwrs	Nifer
Cyfanswm	83

Mae cyrsiau blasu Cymraeg 10 awr ar-lein ar gael i'r rheiny sydd eisiau dechrau ar eu taith iaith. Mae'r cyrsiau hyn yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion pob dydd ac maen nhw ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim. Mae rhai cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol sectorau sef y sector iechyd, gofal, gwasanaethau cyhoeddus, athrawon, penaethiaid, twristiaeth, manwerthu, twristiaeth Cymru.

5.2 Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd

Gwelir isod fanylion am ganran y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith y Sir yn ystod 2025-26. Mae'r ffigwr cwblhau wedi cynyddu 6% o gymharu â ffigyrau 2024-25.

Ymwybyddiaeth iaith (yn cynnwys ysgolion)

Statws	%
Wedi'i gwblhau	82
Heb ei gwblhau	18

5.3 Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor

Cyflwynir isod y wybodaeth sydd gan y Cyngor yn bresennol. Bwydir y wybodaeth yma'n ôl i'r gwasanaethau fel bo'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gallu cynllunio eu gweithluoedd.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Canlyniadau Corfforaethol yn unig (ac eithrio ysgolion)

Sgiliau Cymraeg ein Staff

Sgil	Nifer y staff sy'n Lefelau 4 a 5 a (%)	Nifer y staff sy'n Lefelau 1,2 a 3 a (%)	Nifer y staff gyda Lefel 0 Cymraeg a (%)
Gwranddo a Siarad	307 (14%)	1510 (70%)	346 (16%)
Darllen a Deall	314 (15%)	1474 (68%)	376 (17%)
Ysgrifennu	300 (12%)	1315 (62%)	547 (26%)

Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor fesul gwasanaeth

Gwasanaeth	Nifer y staff sy'n Lefelau 4 a 5 a (%)	Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg Lefelau 1,2 a 3 a (%)	Nifer y staff gyda Lefel 0 Cymraeg a (%)
Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd	50 (11%)	322 (68%)	103 (21%)
Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl	30 (28%)	70 (66%)	6 (6%)
Gwasanaethau Cymorth – Perfformiad, Digidol ac Asedau	21 (15%)	113 (81%)	6 (4%)
Gwasanaethau Addysg a Phlant	59 (17%)	262 (74%)	32 (9%)

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Gwasanaeth	Nifer y staff sy'n Lefelau 4 a 5) a (%)	Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg Lefelau 1,2 a 3 a (%)	Nifer y staff gyda Lefel 0 Cymraeg a (%)
Gwasanaeth Cyllid ac Archwilio	14 (14%)	83 (81%)	5 (5%)
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	47 (9%)	329 (64%)	138 (27%)
Gwasanaethau Tai a Chymunedau	49 (21%)	163 (71%)	19 (8%)
Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad	27 (13%)	142 (70%)	35 (17%)

5.4 Recriwtio - Fframwaith Sgiliau iaith Gymraeg / Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn

Rydym yn parhau i weithredu'r Fframwaith sydd yn ffordd syml i staff hunan asesu eu sgiliau iaith yn seiliedig ar y mathau o dasgau cyfathrebu (darllen, siarad a deall ac ysgrifennu) y gallent eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ffordd effeithiol o fedru monitro pa lefel o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd a pha gwrs y bydd gweithwyr ei angen er mwyn symud i'r lefel nesaf. Mae dilyn y fframwaith hwn yn ein galluogi i gefnogi gweithwyr ar eu taith iaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

Categori iaith Gymraeg mewn swyddi a hysbysebwyd

Categori	Nifer a % fesul categori iaith	Canran %
Hanfodol	100	12%
Dymunol	437	53%
Dysgu ar ôl penodi	17	2%

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Categori	Nifer a % fesul categori iaith	Canran %
Nid oes angen sgiliau Cymraeg	263	32%

Roedd bron i 300 yn fwy o swyddi wedi cael eu hysbysebu yn y flwyddyn ariannol 2025-26 ac mae'n dda gweld bod canran y swyddi hanfodol wedi cynyddu 2% o'r flwyddyn 2024-25. Rydym bellach wedi gorffen y broses o gategoreiddio holl swyddi y Cyngor yn ôl Lefelau Sgiliau Cymraeg o 1 i 5. Mae Lefel 1 o sgiliau Cymraeg yn ddymunol wedi ei rhoi fel isafswm bellach ar gyfer swyddi yn y bas data. Rydym yn ffyddiog y bydd hyn yn lleihau yn sylweddol y nifer o swyddi lle nad oes angen sgiliau Cymraeg yn y flwyddyn 2026-27.

6.0 Cwynion

Cwyn 1

Dyddiad	06/05/2025
Yr Achwynydd	Aelod o'r Cyhoedd drwy Gomisiynydd y Gymraeg
Natur y gŵyn	Honiad nad yw'r Cyngor wedi gwneud asesiad iaith digonol wrth benderfynu gwerthu Hamdden Sir Ddinbych.
Ymateb y Cyngor	Cynhaliwyd cyfarfod i drafod Strwythur Amgen i Hamdden Sir Ddinbych Cyf mewn cyfarfod cyfrinachol ar 26 Mawrth 2025. O ganlyniad, roedd y dogfennau cefndirol hefyd yn rhai preifat. Er nad oedd y dogfennau hynny'n rhai cyhoeddus, cwblhawyd Asesiad Effaith Lles llawn, a oedd yn ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Fe wnaethom rannu'r asesiad yma gyda'r Comisiynydd.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Dyddiad	06/05/2025
Canlyniad	Penderfynodd y Comisiynydd i beidio cynnal ymchwiliad yn hytrach cawsom Gyngor dan adran 4 y Mesur: Gall ystyried y Gymraeg ar wahân i ffactorau eraill olygu y gellir rhoi mwy o bwyslais ac ystyriaeth i ofynion penodol y safonau. Dylai'r Cyngor felly ystyried creu templed ar wahân ar gyfer cyflawni asesiad effaith ar y Gymraeg, er mwyn cwmpasu gofynion llawn y safonau llunio polisi. Hynny yw, adnabod unrhyw effeithiau posib ar y Gymraeg; ystyried sut y gellid sicrhau effeithiau mwy positif ac effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg. Dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gall hyn sicrhau lefelau uwch o gydymffurfiaeth yn y dyfodol. Dylai'r Cyngor sicrhau bod mwy na thrafodaeth arwynebol o'r Gymraeg o fewn yr asesiad effaith. Mae angen cynnwys digon o wybodaeth er mwyn dangos fod ymdrech gydwybodol wedi ei wneud i ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg. Rydym fel Cyngor wedi creu canllawiau newydd i godi ymwybyddiaeth staff o Safonau Penderfyniad polisi a beth yw Ymdrech Gydwybodol. Rydym yn y broses o greu rhaglen o hyfforddiant i Swyddogion i esbonio'r canllawiau. Mae Pwyllgor Llywio'r Gymraeg hefyd bellach yn craffu ar adroddiadau Effaith ar Les sy'n cynnwys adran am yr effaith ar y Gymraeg.

Cwyn 2

Dyddiad	05/08/2025
Yr Achwynnydd	Aelod o'r Cyhoedd

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Dyddiad	05/08/2025
Natur y gŵyn	Poster i uniaith Saesneg yn cael eu harddangos ar Hysbysfwrdd yn Llyfrgell Rhuthun.
Ymateb y Cyngor	Mae'r Safonau Iaith yn golygu bod rhaid i holl ddeunyddiau a grëwyd gan y Cyngor fod yn ddwyieithog. Ond yn yr achos yma Hysbysfwrdd Cymunedol oedd hwn lle gall grwpiau cymunedol rhoi poster i hysbysebu digwyddiadau lleol. Rydym yn annog ond nid ydym yn gorfodi grwpiau lleol i greu poster dwyieithog fel amod i'w arddangos ar hysbysfyrddau ein llyfrgelloedd.
Canlyniad	Crëwyd arwydd i roi wrth ymyl yr hysbysfyrddau yn nodi mae man i arddangos poster i ar gyfer digwyddiadau lleol gan grwpiau lleol ydi hwn ac nid digwyddiadau'r Cyngor Sir yn unig.

Cwyn 3

Dyddiad	30/07/2025
Yr Achwynydd	Aelod o'r cyhoedd
Natur y gŵyn	Roedd aelod o'r cyhoedd wedi sylwi bod Arwyddion Tacsî ar gerbydau Tacsî ddim yn ddwyieithog.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Dyddiad	30/07/2025
Ymateb y Cyngor	O ran persbectif trwyddedu mae ein Polisi ac Amodau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat yn nodi'r canlynol: 5.6.3 Rhaid i Gerbyd Hacni sydd wedi'i drwyddedu gan y Cyngor gario arwydd wedi'i oleuo ar y to. Rhaid i'r arwydd to ddatgan "Tacsi/Tacsi" a rhaid iddo fod wedi'i oleuo wrth geisio llogi. Anfonwyd neges at y tacsis rydym yn trwyddedu i'w atgoffa o'r amod uchod a bod unrhyw gerbyd a geir yn torri'r rheolau yn cael cyfle i'w gywiro yn y lle cyntaf cyn cymryd unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol.
Canlyniad	Anfonwyd neges at y tacsis rydym yn trwyddedu i'w atgoffa o'r amod uchod a bod unrhyw gerbyd a geir yn torri'r rheolau yn cael cyfle i'w gywiro yn y lle cyntaf cyn cymryd unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol.

Cwyn 4

Dyddiad	23/08/26
Yr Achwynydd	Aelod o'r cyhoedd
Natur y gŵyn	Diffyg cyfieithu a chyfieithu gwael ar Bromenâd Rhyl
Ymateb y Cyngor	Ymddiheurodd y Cyngor am waith y contractwr. Cafwyd ymchwiliad mewnol er mwyn deall sut bod ein prosesau prawf ddarllen wedi methu.

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Dyddiad	23/08/26
Canlyniad	Anfonwyd neges i Reolwyr prosiectau bod yn hollbwysig iddynt reoli cwmnïau sy'n gwneud gwaith ar ein rhan a bod Prawf Ddarllen unrhyw arwyddion yn holl bwysig.

Cwyn 5

Dyddiad	05/11/2026
Yr Achwynnydd	Aelod o'r cyhoedd
Natur y gŵyn	Arwydd cau ffordd dros dro gyda chamsillafu yn y Gymraeg
Ymateb y Cyngor	Cysylltodd ein Swyddog Iaith gyda Rheolwr Gwaith Stryd
Canlyniad	Fe wnaeth ein Tîm Gwaith Stryd newid yr arwydd fel ei fod yn gywir.

Cwyn 6

Dyddiad	22/09/25
Yr Achwynnydd	Comisiynydd / Aelod o'r cyhoedd
Natur y gŵyn	Roedd y Comisiynydd wedi derbyn cwyn am lythyr uniaith Saesneg sydd wedi ei anfon at aelod o'r cyhoedd, mewn ymateb am bleidlais bost a gyflwynodd yn Gymraeg drwy wefan Llywodraeth y DU

Adroddiad monitro blynyddol yr iaith Gymraeg 2025 i 2026

Dyddiad	22/09/25
Ymateb y Cyngor	Cynhaliodd ein Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddfa Etholiadol ymchwiliad mewnol i'r mater.
Canlyniad	Mae'r Swyddfa Etholiadol bellach wedi gwirio gosodiadau'r system yn <i>Xpress</i> i sicrhau bod y system yn dewis y dogfennau dwyieithog fel y bwriadwyd. Mae'r staff yn rhoi sylw arbennig i wirio'r llythyrau cyn eu hanfon.

7.0 Edrych i'r dyfodol - Cynlluniau 2026-27

Dyma'r cynlluniau sydd ar y gweill neu a fydd yn cael blaenoriaeth y flwyddyn nesaf.

- Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol Herio'r Mythau am y Gymraeg wrth weithio i'r Cyngor ac ymgyrch i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg / annog y cyhoedd i'w defnyddio
- Hyfforddiant i swyddogion a Chynghorwyr ar Safonau Penderfyniad Polisi
- Codi Ymwybyddiaeth, Monitro a Gwerthuso ein Polisi i hwyluso ac annog defnydd mewnol o'r Gymraeg
- Edrych yn fanwl ar ein cynnig hyfforddiant mewnol yn unol â Safonau'r Gymraeg.